**YMATEB Y LLYWODRAETH: RHEOLIADAU DIOGELU IECHYD (CYFYNGIADAU CORONAFEIRWS) (RHIF 2) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 8) (CAERFFILI) 2020**

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**Pwyntiau craffu technegol:**

*Anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg*

2. Mae adroddiad drafft y Pwyllgor yn nodi bod y cyfeiriad yn rheoliad 2(6)(b)(iii) at reoliadau 18(6) a (6ZA)(a) yn wahanol yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

3. Mae rheoliad 2(6)(b)(iii) yn diwygio rheoliad 20(3)(a) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"). Mae'r testun Saesneg yn darparu "for "or 18(6)" substitute ", 18(6) or 18(6ZA)(a)"". Mae'r testun Cymraeg yn darparu "yn lle "neu (6)" rhodder ", (6) neu (6ZA)(a)"".

4. Mae'r gwahaniaeth o ganlyniad i fân wahaniaeth, nad yw'n un o sylwedd, yn nhestunau Cymraeg a Saesneg rheoliad 20(3)(a) o'r prif Reoliadau. Tra bo testun Saesneg y rheoliad hwnnw yn cyfeirio at "regulation 18(4), 18(5)(a) or 18(6)", mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "reoliad 18(4), (5)(a) neu (6)".

5. Mae testunau Cymraeg a Saesneg rheoliad 2(6)(b)(iii) wedi eu drafftio ychydig yn wahanol oherwydd y gwahaniaeth yn nhestunau Cymraeg a Saesneg rheoliad 20(3)(a) o'r prif Reoliadau. Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod y testun Cymraeg yn llai eglur na'r testun Saesneg.